Ymweliadau gwaith maes – canllawiau ar gyfer yr awdurdod lleol

Wythnos 3: Arweinwyr gwleidyddol, rheolwyr a phartneriaid

Bydd angen i raglen y drydedd wythnos ar y safle fodelu trefniadau trefniadaethol yr awdurdod lleol yn agos yn ogystal â'r modd y mae'n strwythuro perthynas gydag asiantaethau partner.

Bydd yr adolygwyr yn dymuno gweld:

<u>Yn y gwasanaethau cymdeithasol</u>

- penaethiaid adrannol y prif gleient, darparwr neu ardaloedd daearyddol (gan gynnwys Gwasanaeth Troseddau'r Ifanc a'r Gwasanaeth y tu allan i Oriau Swyddfa);
- rheolwyr comisiynu/cynllunio;
- Arbenigwyr adnoddau a pherfformiad (cyllid, perfformiad, adnoddau dynol, gwybodaeth, cwynion);
- cyfarwyddwyr cynorthwyol/penaethiaid gwasanaeth, cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol a'r swyddog(ion) lefel gyntaf perthnasol - gwelir y rhain yn olaf fel arfer.

<u>Ar y lefel gorfforaethol</u>

- yr arweinydd;
- y rhai sy'n gyfrifol am y portffolio(s) perthnasol;
- cadeiryddion ac aelodau pwyllgorau archwilio perthnasol;
- y prif weithredwr;
- swyddogion gweithredol perthnasol (tai, addysg, cyllid, gwasanaethau cyfreithiol, ac ati);
- cynrychiolwyr yr undebau llafur.

<u>Partneriaid ac asiantaethau allanol</u>

- cynrychiolwyr iechyd (gan gynnwys cadeirydd a phrif weithredwr y Bwrdd Iechyd lleol ac arweinwyr allweddol mewn ymddiriedolaethau iechyd);
- cynrychiolwyr yr heddlu (gan gynnwys arweinwyr allweddol ar gyfer diogelwch y gymuned, amddiffyn plant a throseddau'r ifanc);
- prif weithredwr sefydliad ambarél y sector gwirfoddol lleol (cyngor gwirfoddol y sir).

Byddai o gymorth pe gellid trefnu peth o'r rhaglen ar sail thema gan ddefnyddio'r meysydd yn ail ddimensiwn y dyfarniad *Pa mor dda yw sefyllfa yr awdurdod er mwyn parhau a gwella perfformiad?* (e.e. gweithlu, adnoddau, cynllunio a phartneriaethau, cefnogaeth ac archwilio corfforaethol a gwleidyddol).

Adrannau neu sefydliadau eraill

Ar gyfer rhai adolygiadau, gofynnir i chi enwebu sefydliadau perthnasol yn eich ardal, yn enwedig yn y sector gwirfoddol. Trafodwch y mater gyda'r sefydliad dan sylw, er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon cyfrannu.

Sicrhewch fod cynrychiolwyr yn gwybod beth yw natur a chanolbwynt yr adolygiad. Bydd angen digon o rybudd arnynt i wneud unrhyw waith paratoi neu ymgynghori. Gall sefydliadau ddymuno ymgynghori gyda'i staff eu hunain i gael gwybodaeth gywir a chyfredol cyn y cyfweliad.

Gwybodaeth

Mae cael gwybodaeth gywir ac eglur ynglŷn â'r adolygiad yn hanfodol, os am osgoi pryder neu ansicrwydd dianghenraid. Sylwer yn benodol ar y pwyntiau canlynol.

- Sicrhewch fod pawb yn deall natur a chanolbwynt yr adolygiad a pham y cânt eu gweld.
- Dylid darparu copi o'r taflenni cyd-adolygu perthnasol i bawb ynghyd â nodiadau briffio a gwybodaeth ynglŷn â'r codau ymarfer ar gyfer adolygwyr ac aseswyr lleyg;
- Sicrhewch eu bod yn gwybod enw(au)'r adolygwr(wyr) sy'n cynnal yr ymweliad.

- Mae amserlenni gwaith maes yn gyfyng fel arfer, felly mae bod ar amser yn bwysig i bawb dan sylw, gan gynnwys y tîm cyd-adolygu. Gall oedi effeithio ar nifer o bobl.

Meysydd i'w harchwilio

Mae'r ymweliadau gwaith maes yn fodd allweddol o gael tystiolaeth ynglŷn â'r meysydd sydd i'w harchwilio a fydd yn sail i ddyfarniadau. Mae'r Llawlyfr Cyd-Adolygu yn amlinellu'r meysydd hyn ac, wrth ofyn cwestiynau, bydd yr adolygwyr yn canolbwyntio arnynt. Byddwn yn edrych yn benodol ar ddau fater allweddol:

- Pa mor dda y caiff anghenion eu bodloni gan y gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd?
- Pa adnoddau sydd gan yr awdurdod lleol er mwyn darparu gwelliannau o ran ansawdd y gwasanaethau hynny?

Byddwn wedi paratoi rhai cwestiynau, yn rhannol er mwyn cadarnhau peth o'r wybodaeth yr ydym eisoes wedi ei derbyn. Yn ogystal â gofyn cwestiynau, rydym eisiau sicrhau y caiff aelodau staff y cyfle i siarad am y materion sy'n eu pryderu a chyfle i ddweud wrthym am eu profiadau. Mae gennym gymaint o ddiddordeb yn yr hyn sy'n gweithio'n dda ag sydd gennym yn yr hyn sydd angen ei wella.